Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETHOL DEMENTIA:

# Dysgu a Datblygu'r Gweithlu

**Cefnogi a datblygu ein gweithluoedd.**

**Cefnogi ein gweithlu i ddatblygu a gwella.**

**Rydyn ni eisiau helpu ein gweithlu i wella'r gofal dementia y maen nhw'n ei gynnig, gan roi'r offer a'r adnoddau iddynt i gyflawni eu rolau. Rydyn ni eisiau amlygu bylchau a helpu i weithio tuag at eu pontio.**



## BETH SY'N BWYSIG I BOBL Â DEMENTIA?

Dywedodd pobl wrthym eu bod nhw eisiau gweld staff wedi'u hyfforddi'n dda, oedd yn gallu gofalu amdanyn nhw yn y ffordd y dymunent.

Roedd gofalwyr hefyd eisiau cymorth i'w helpu i ddeall mwy am y cyflwr a sut i gefnogi eu hanwyliaid.

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

Rydyn ni eisiau datblygu ein staff i ddarparu'r gofal dementia gorau yn eu hymarfer dyddiol.

**Ein bwriad yw gwneud hyn drwy:**

- Deall ein gwasanaethau dementia a'n llwybrau atgyfeirio.
- Amlygu ble mae bylchau y mae angen eu llenwi.
- Amlygu'r ffordd orau o ddefnyddio cyllid i gefnogi newidiadau cadarnhaol.
- Creu cynllun i ddatblygu ein gweithlu yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar bobl.

**Ein bwriad yw:**

1. Adolygu ein holl wasanaethau a llwybrau.
2. Creu cynllun datblygu gweithlu.
3. Creu ffordd o fapio pa wahaniaeth y mae ein hyfforddiant yn ei wneud i ofal ar lawr gwlad a pha mor dda yr ydym yn bodloni'r Fframwaith Gwaith Da.



**DYWEDODD POBL**

"Mae angen i chi weld y person fel mwy na chlaf â dementia yn unig."

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Bydd cael gwell dealltwriaeth o'n gweithlu a pha feysydd y mae angen iddyn nhw eu datblygu yn cryfhau ein dull o fynd i'r afael â gofal dementia. Bydd yn cefnogi ein gweithlu i wella ac yn ein helpu i weithredu diwylliant cadarnhaol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.